# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Y Bumed Senedd

Lleoliad:

**Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 27 Mawrth 2019

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Naomi Stocks**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

Cysylltu@senedd.cymru

**Rhag-gyfarfod (09:15-09:30)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Ymchwiliad i hawliau pleidleisio i garcharorion: sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

(09:30-10:30) (Tudalennau 1 - 59)

Julie James, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Lisa James, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol

Gareth Thomas, Cynghorydd Polisi, Diwygio Etholiadol (Is-adran Llywodraeth Leol)

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd ar gyfer eitemau 4, 7 a 8

## 4 Hawliau pleidleisio i garcharorion: trafod y dystiolaeth lafar

(10:30-10:40)

**Egwyl (10:40-10:50)**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 5 Craffu ar waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: craffu blynyddol

(10:50-12:05) (Tudalennau 60 - 71)

Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Marie Brousseau-Navarro, Cyfarwyddwr Polisi, Deddfwriaeth ac Arloesi

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru - Adroddiad Blynyddol 2017-2018

## 6 Papurau i'w nodi

**6.1 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit mewn perthynas â'r ymchwiliad i hawliau pleidleisio i garcharorion (Saesneg yn unig)**

(Tudalen 72)

## 7 Gwaith craffu blynyddol ar waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: trafod y dystiolaeth lafar

(12:05-12:15)

**7.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

(Tudalennau 73 - 75)

## 8 Ymchwiliad i eiddo gwag ac ail gartrefi: papur cwmpasu

(12:15-12:25) (Tudalennau 76 - 87)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Llywodraeth Cymru: Papur tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ynghylch ymchwiliad y Pwyllgor i hawliau carcharorion i bleidleisio yn etholiadau Cymru**

Mater 1 – *Dadleuon o blaid ac yn erbyn rhoi'r hawl i rai carcharorion, neu bob un, bleidleisio yn etholiadau Cymru, ac a ellid gwahaniaethu rhwng categorïau gwahanol o garcharor ar sail hyd y ddedfryd, dyddiad rhyddhau disgwyliedig, neu fathau o drosedd*

1.1 Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r egwyddor o ganiatáu i rai carcharorion o Gymru o leiaf gael pleidleisio yn etholiadau Cymru, sef etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a llywodraeth leol. Rydym yn gwneud y datganiad hwnnw gan wybod bod y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn archwilio'r mater o hawliau pleidleisio carcharorion ar gyfer etholiadau Cymru. Ni wnaed unrhyw benderfyniadau mewn perthynas â'n cynigion deddfwriaethol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol; rydym wedi dilyn trafodion y Pwyllgor â diddordeb a byddwn yn disgwyl am gasgliadau'r Pwyllgor cyn gwneud ein penderfyniadau.

1.2 Mae'r dadleuon o blaid ac yn erbyn caniatáu i garcharorion bleidleisio yn tueddu i ymgyfuno'n eithaf cyffredinol o gwmpas dau ganfyddiad athronyddol ynghylch diben sefydliad cosbol: (i) ei fod yn le i gosbi personau sydd wedi troseddu sy'n tramgwyddo rheolau cymdeithas a dderbynnir; o ganlyniad i'w hymddygiad, mae personau o'r fath wedi'u hepgor o'r gymdeithas honno am gyfnod; neu (ii), ei fod yn le ar gyfer adferiad a ddylai hyrwyddo cynhwysiant, cyfrifoldeb cymdeithasol ac urddas dynol y personau y mae'n eu cadw, gyda golwg ar eu hail-integreiddio i gymdeithas arferol wedi iddynt gael eu rhyddhau a'u dychwelyd i'r gymdeithas.

1.3 Yn y DU, mae'r rheini sy'n cefnogi rhoi caniatâd i garcharorion bleidleisio yn tueddu i fod yn fwy uchel eu cloch na'r rheini sydd o blaid parhau i ddifreinio carcharorion, ond mae hynny o bosibl yn adlewyrchu'r ffaith mai'r sefyllfa bresennol yw bod gwaharddiad ar bob carcharor collfarnedig rhag pleidleisio tra eu bod yn y carchar. Mae'r pwyslais ar y rheini sydd am newid y system yn hytrach na'r rheini sydd am ei amddiffyn.

1.4 Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar becyn o gynigion ar gyfer diwygio etholiadol ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol yn 2017 gyda golwg ar ddeddfu i fynd i'r afael ag ystod o ddiwygiadau etholiadol llywodraeth leol, yn arbennig caniatáu i bobl ifanc 16 ac 17 oed bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol. Ni wnaeth y papur ymgynghori ymrwymo i ddeddfu ar ganiatáu i garcharorion bleidleisio, gan gydnabod cymhlethdodau y materion dan sylw a'r angen i weithio drwy asiantaethau nad ydynt wedi'u datganoli. Roedd cydbwysedd agos iawn rhwng y barnau a gyflëwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad. Mewn ymateb i'r cwestiwn "a ddylid caniatáu i garcharorion Cymru bleidleisio a chymryd rhan mewn etholiadau lleol yng Nghymru", roedd 50% o'r ymatebwyr (340 mewn nifer) o blaid caniatáu i

garcharorion Cymru bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol, roedd 48% yn anghytuno (326 mewn nifer) ac ni wnaeth 2% (12 mewn nifer) roi barn y naill ffordd neu’r llall.

1.5 Barn gref Llywodraeth Cymru yw bod yn rhaid i’r carchar fod yn amgylchedd sy’n ddiogel, sy’n caniatáu i staff ganolbwyntio ar adfer troseddwyr ac i’r adnoddau gael eu defnyddio ar eu cyfer. Mae’r penderfyniad i anfon rhywun i’r carchar a’u hamddifadu o’u rhyddid yn weithred o gosb yn ei hunan; dylai carchardai fod yn lleoedd ar gyfer adferiad, nid ar gyfer gweinyddu rhagor o gosb, oni bai bod angen gwneud hynny oherwydd bod carcharor wedi torri rheolau’r carchar. Dylai ffocws y gweithgareddau mewn carchardai fod ar adferiad ac ailgysylltu’r carcharorion â gwerthoedd y gymdeithas yn gyffredinol.

1.6 Mae Llywodraeth Cymru yn credu y byddai galluogi carcharorion i bleidleisio yn anfon negeseuon cryf a chadarnhaol iawn i garcharorion bod ganddynt ran i’w chwarae mewn cymdeithas o hyd ac, yn ei dro, bod ganddynt gyfrifoldebau mewn perthynas â chymdeithas yn ei chyfanrwydd.

1.7 Yn ei Ddatganiad Llafar ar 30 Ionawr 2018, wrth ymateb i’r ymgynghoriad ar ddiwygio etholiadol, nododd yr Ysgrifennydd Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar y pryd:

> *Rwyf hefyd yn ystyried y posibiliadau ar gyfer ymestyn hawliau carcharorion i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol os yw dyddiad arfaethedig eu rhyddhau cyn diwedd cyfnod y cyngor sy'n cael ei ethol. Byddent yn gallu pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy os oes ganddyn nhw gysylltiad â chyfeiriad yng Nghymru, fel arfer eu cyfeiriad diwethaf. Mae angen i bobl sy'n cael eu hanfon i'r carchar deimlo'n rhan o'r gymuned ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, a bydd yr hawl i bleidleisio yn ffurfio rhan o hyn.*

1.8 Yn y cyfnod ers y Datganiad, buom yn archwilio’r gwahanol fodelau o ganiatáu i garcharorion bleidleisio yn yr awdurdodaethau sy’n caniatáu o leiaf rhywfaint o garcharorion i bleidleisio. Wrth wneud hynny, buom yn ystyriol o’r angen inni ganfod ateb sy’n taro cydbwysedd rhwng egwyddorion a phragmatiaeth.

1.9 Yr atebion mwyaf syml yn weinyddol yw’r rheini ar y naill ben i’r ddadl a’r llall, sef cadw’r ddarpariaeth bresennol gyfyngedig iawn ar gyfer caniatáu i garcharorion bleidleisio neu ddeddfu i holl garcharorion Cymru allu pleidleisio. Mae’r rhain yn “syml” dim ond mewn perthynas â’r opsiynau eraill. Yn ein barn ni, mae cadw’r drefn bresennol yn golygu methu cyfle pwysig i wneud datganiad ynghylch gwerth adferiad ac ail-integreiddio carcharorion i mewn i gymdeithas. Mae caniatáu i garcharorion o Gymru bleidleisio yn codi materion ynghylch galluogi pobl sydd wedi cyflawni’r troseddau mwyaf ffiaidd i bleidleisio, sy’n rhywbeth y mae’n bosibl na fyddai hyd yn oed cefnogwyr rhoi caniatâd i garcharorion bleidleisio yn gallu ei stumogi.

1.10 Yr opsiynau eraill y mae Llywodraeth Cymru wedi’u hystyried yw:

- Gwneud difreinio yn opsiwn dedfrydu ychwanegol, i’w ddefnyddio ar ddisgresiwn y barnwr sy’n dedfrydu.
- Cysylltu difreinio â’r math o drosedd a gyflawnwyd.
- Cysylltu rhoi’r hawl i garcharor bleidleisio â hyd yr amser sy’n weddill o’u dedfryd o garchar.
- Cysylltu difreinio â hyd dedfryd o garchar y carcharor.

1.11 Mae pob un o’r opsiynau amgen hyn yn cynnwys elfennau o fympwyaeth. Defnyddir yr opsiwn cyntaf a’r ail yn Ffrainc a’r Almaen yn y drefn honno; maent yn caniatáu defnyddio difreiniad fel cosbau ychwanegol naill ai gan farnwyr neu ar sail y math o drosedd a gyflawnwyd. Gellir dweud eu bod yn caniatáu defnyddio difreinio mewn modd mwy ystyrlon a phriodol yn unol â difrifoldeb a natur y drosedd a gyflawnwyd. Mae’r dystiolaeth o wledydd sydd â systemau o’r fath yn awgrymu bod anghysonderau o hyd o ran defnyddio’r gosb o ddifreinio. Ond, beth bynnag fo rhinweddau ac anfanteision y ddau opsiwn hyn, y mater pwysig i Lywodraeth Cymru yw bod y ddau opsiwn yn codi materion sy’n ymwneud â gweinyddu cyfiawnder a’r polisi dedfrydu, ac nid yw’r naill na’r llall wedi’u datganoli ar hyn o bryd.

1.12 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn edrych ar y materion o gwmpas y trydydd a’r pedwerdydd opsiwn. Rydym yn gweld ychydig o werth i’r trydydd opsiwn gan y byddai’n galluogi i’r hawl i garcharor bleidleisio gael ei gysylltu ag adferiad y carcharor a’r gefnogaeth ar gyfer hynny a’r gwaith o baratoi i’w ryddhau. Fodd bynnag, mae anfanteision iddo, gan fod system o’r fath yn gofyn am wybodaeth bendant ynghylch dyddiad rhyddhau’r carcharor mewn digon o amser cyn y dyddiad pleidleisio i alluogi iddo gael ei gofrestru, ac ati. Mae gan nifer o garcharorion yng Nghymru a Lloegr ddedfrydau amhenodol ac mae’r dyddiad rhyddhau terfynol yn amodol ar ystyriaethau amrywiol yn ystod cyfnod y carcharor yn y carchar, nid lleiaf argymhelliad i’w ryddhau gan y Bwrdd Rhyddhau. Gall y peiriant gweinyddol a llif biwrocrataidd y wybodaeth sydd ei hangen i weinyddu system sy’n gysylltiedig â dyddiad rhyddhau carcharor fod yn waharddol, yn enwedig pan fyddwn yn ystyried y niferoedd gweddol fach o garcharorion y bydd hyn yn berthnasol iddynt.

1.13 Byddai’r pedwerydd opsiwn yn rhyddfreinio dim ond y carcharorion hynny sydd wedi’u eu dedfrydu i gael eu carcharu am gyfnod o amser sydd o dan drothwy diffiniadwy. Mae cefnogwyr y system hon yn credu ei bod yn taro cydbwysedd priodol, gan ystyried natur, difrifoldeb ac amgylchiadau’r drosedd ac yn ateb yr amcan ehangach o gefnogi adferiad ac ailintegreddio carcharorion er mwyn lleihau’r achosion o ail-droseddu. Mae gan yr awdurdodaethau sy’n defnyddio’r system hon drothwyon amrywiol; yn Awstralia, mae gwahanol drothwyon yn berthnasol ar gyfer etholiadau ffederal ac ar gyfer pob un o’r etholiadau gwladwriaethol a thiriogaethol, sy’n amrywio o drothwy o 1 flwyddyn yn Ne Cymru Newydd, hyd at 5 mlynedd yn Victoria (y trothwy ar gyfer etholiadau ffederal yw 3 blynedd). Yn anochel, bydd nodi trothwy sy’n briodol i etholiadau Cymru ychydig yn fympwyol ond mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod y polisi dedfrydu yng Nghymru a Lloegr yn ystyried bod dedfryd o 4 blynedd neu fwy yn un “hirdymor”.

1.14 Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud penderfyniadau eto ac mae’n disgwyl am adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

*<u>Mater 2</u> - Materion ymarferol, megis cofrestru etholiadol (gan gynnwys cyfeiriad), dull pleidleisio, ymgysylltiad carcharorion â'r broses wleidyddol, rhoi gwybodaeth ac addysg o ran gwleidyddiaeth a dinasyddiaeth;*

2.1 Wrth ystyried rhoi caniatâd i garcharorion bleidleisio, un o'r materion allweddol i'w hystyried yw'r mater o alluogi carcharorion cymwys i gofrestru i bleidleisio a lle y byddant yn cael eu cofrestru i bleidleisio. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o bleidleiswyr wedi'u cofrestru i bleidleisio ar sail eu prif gartref ac maent yn pleidleisio yn yr ardal etholiadol lle mae'r cartref wedi'i leoli. Byddai'r egwyddor hwnnw yn llywio unrhyw gynnig gan Lywodraeth Cymru ynghylch rhoi caniatâd i garcharorion bleidleisio. Ein bwriad fyddai cofrestru carcharorion o Gymru ar sail cyfeiriad yng Nghymru y byddai'r carcharor yn ei ystyried yn gartref iddynt.

2.2 Mae'n bosibl na fydd gan rai carcharorion gartref y maent yn dymuno ei nodi neu efallai eu bod yn ddi-gartref. Mae'r system gofrestru etholiadol bresennol yn cynnwys pob posibilrwydd a byddai Llywodraeth Cymru yn estyn y system bresennol i gynnwys carcharorion o Gymru sy'n dod yn gymwys lle gallai categorïau penodol o bleidleiswyr gofrestru ar sail *datganiad o gyswllt lleol.* Byddai carcharorion cymwys yn gallu cofrestru mewn awdurdod lleol lle maent wedi byw ynddo yn flaenorol neu lle y gallant ddangos cysylltiad arwyddocaol, er enghraifft: perthnasau neu ffrindiau y maent wedi aros gyda hwy, defnydd rheolaidd o westy gwely a brecwast neu hostel, neu gysylltiad ag asiantaethau sy'n gweithio gyda'r di-gartref.

2.3 Nid ydym y rhagweld y bydd carcharorion mewn carchar yn cael eu galluogi i bleidleisio yn bersonol mewn gorsaf bleidleisio, naill ai yn yr ardal lle maent wedi'u cofrestru neu yn y carchar ei hun; byddant yn cael eu galluogi i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy, sef y ffordd y mae nifer fach o garcharorion yn y DU sy'n gymwys ar hyn o bryd i bleidleisio yn gwneud hynny.

2.4 Byddai angen i Lywodraeth Cymru weithio'n agos gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi i sicrhau bod carcharorion cymwys yn cael eu hysbysu ynghylch eu cymhwysedd i bleidleisio a'r angen i garcharorion gofrestru i bleidleisio. Gellid cynnwys gwybodaeth o'r fath yn y prosesau gweinyddol y mae pob carcharor yn eu dilyn pan fyddant yn cyrraedd carchar newydd. Byddem yn disgwyl i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gyfathrebu â llywodraethwyr carchardai yng Nghymru ynghylch y gofynion cofrestru. Rhaid i lywodraethwyr carchardai wneud trefniadau eisoes i'r nifer fach iawn o garcharorion sy'n gymwys i bleidleisio ar hyn o bryd allu cofrestru a phleidleisio ac mae canllawiau ar waith ar gyfer hynny.

2.5 Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio'n agos â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi i ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau datganoledig sy'n hanfodol ar gyfer cynnal llesiant carcharorion a lleihau'r achosion o ail-droseddu. Byddem yn dymuno meithrin y cysylltiadau addysgol presennol mewn carchardai yng Nghymru i ddatblygu ymwybyddiaeth ynghylch pleidleisio a dinasyddiaeth ymysg carcharorion, efallai gan ddefnyddio deunydd y byddwn yn ei ddatblygu ar gyfer pobl ifanc 16 ac 17 oed pan fyddant yn dod yn gymwys i bleidleisio. Drwy estyn allan i garcharorion o Gymru sydd wedi eu lleoli mewn carchardai yn Lloegr, byddem yn dymuno meithrin a datblygu'r cysylltiadau sydd gennym eisoes â charchardai yng Nghymru a thu hwnt drwy ein

rhaglenni i osgoi digartrefedd a chefnogi'r broses o ail-sefydlu carcharorion sy'n gadael y carchar.

<u>Mater 3</u> *- Materion trawsffiniol oherwydd bod carcharorion o Gymru yn cael eu carcharu yn Lloegr, ac i'r gwrthwyneb.*

3.1 Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol y bydd angen i unrhyw gynnig i ryddfreinio carcharorion ar gyfer etholiadau Cymru fynd i'r afael â'r mater bod cyfran sylweddol o garcharorion o Gymru wedi'u lleoli mewn carchardai ledled Lloegr. Rydym yn gwybod bod tua 35% o'r carcharorion y mae cyfeiriad eu cartref yng Nghymru wedi'u lleoli mewn carchardai yn Lloegr; mae'r carcharorion sydd wedi'u lleoli yn Lloegr yn cynnwys yr holl garcharorion benywaidd o Gymru.

3.2 Wrth ystyried rhoi caniatâd i garcharorion bleidleisio ar gyfer etholiadau Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylid galluogi carcharorion o Gymru i bleidleisio yn yr etholiadau hyn, lle bynnag y byddant wedi'u lleoli ar draws yr ystâd carchardai yng Nghymru a Lloegr. Mae ein cysylltiadau mwyaf datblygedig â'r carchardai sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, ond byddem yn gweithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi i sicrhau bod y carcharorion hynny o Gymru sydd wedi'u lleoli yn Lloegr yn ymwybodol o'u rhyddfraint.

3.3 I'r gwrthwyneb, mae tua 30% o'r carcharorion mewn carchardai sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn dod o Loegr. Nid yw Llywodraeth Cymru yn credu y dylid caniatáu i garcharorion o Loegr sydd wedi'u lleoli mewn carchardai yng Nghymru bleidleisio yn etholiadau Cymru. Mae carcharorion o'r fath yng Nghymru oherwydd polisi lleoli Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yn unig ac rydym yn credu nad yw hyn yn cynrychioli cysylltiad digon cryf â lleoliad i alluogi carcharorion o'r fath i bleidleisio yn y lleoliad hwnnw.

3.4 Yn unol â hynny, ni fyddai Llywodraeth Cymru yn galluogi carcharorion o Loegr i gofrestru i bleidleisio yn etholiadau Cymru ar sail cyfeiriad y carchar y maent wedi'u lleoli ynddo. Byddem yn estyn yr egwyddor hon i garcharorion o Gymru sydd wedi'u lleoli yn y carchardai yng Nghymru. Byddai carcharorion o'r fath o Gymru yn cael eu galluogi i gofrestru yn y lleoliad y maent yn dod ohono neu y mae ganddynt gysylltiad lleol ag ef.

3.5 Un rheswm allweddol dros beidio â galluogi carcharorion, pa un a ydynt yn dod o Gymru neu Loegr, i gofrestru ar sail cyfeiriad y carchardai yw'r ffaith y gallai caniatáu cofrestru ar sail o'r fath greu crynhoad o grŵp diddordeb arbennig o etholwyr posibl yn yr hyn sydd weithiau yn wardiau etholiadol llywodraeth leol bach iawn. Mae gan Garchar y Parc ym Mhen-y-bont ar Ogwr tua 1,700 o garcharorion; mae'r carchar wedi'i leoli yn ward etholiadol Coety o dan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sydd â thua 1,650 o etholwyr.

<u>Mater 4</u> *- A yw ystyriaethau arbennig yn cynnwys troseddwyr ifanc yn y ddalfa os estynnir yr hawl i bleidleisio i bobl 16 ac 17 oed yn gyffredinol;*

4.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymestyn y bleidlais i bobl ifanc 16 ac 17 oed yn gyffredinol a byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth yn ddiweddarach eleni i

alluogi pobl ifanc o’r fath i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol; rydym yn nodi y byddai’r Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) a gyflwynwyd yn ddiweddar yn galluogi pobl ifanc 16 ac 17 oed i bleidleisio yn etholiadau’r Cynulliad.

4.2 Mae’r datblygiadau hyn yn gwahodd y cwestiwn ynghylch a ddylid galluogi troseddwyr ifanc sy’n 16 ac 17 oed o Gymru i bleidleisio yn etholiadau Cymru ochr yn ochr â phobl ifanc eraill. Mae nifer y bobl ifanc o Gymru sy’n cael eu lleoli gan y llysoedd mewn sefydliadau tebyg i garchardai yng Nghymru a Lloegr wedi gostwng mewn blynyddoedd diweddar. Fel arfer, mae tua 25 o droseddwyr ifanc (o dan 18 oed) o Gymru wedi’u cadw mewn sefydliadau i droseddwyr ifanc, canolfanau hyfforddiant diogel a chartrefi plant diogel; mae nifer fechan o’r rhain yn iau na’r oedran pleidleisio newydd a gynigwyd.

4.3 Yr unig sefydliad i droseddwyr ifanc yng Nghymru yw Carchar y Parc ym Mhen-y-bont ar Ogwr; mae 6 lle yng Nghartref Diogel Hillside (yng Nghastell Nedd) wedi’u cadw ar gyfer troseddwyr ifanc. Nid oes unrhyw ganolfannau hyfforddiant diogel yng Nghymru. O’r herwydd, mae cyfran o droseddwyr ifanc o Gymru yn cael eu lleoli yn Lloegr.

4.4 Wrth gyrraedd y casgliadau ynghylch rhyddfreinio troseddwyr ifanc 16 ac 17 oed hefyd, byddai’n rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried yr egwyddorion a nodir yn *Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf,* strategaeth ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a’r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i wella gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc o Gymru y mae perygl iddynt fod yn rhan o’r broses cyfiawnder ieuenctid neu sydd eisoes yn rhan ohoni.

4.5 Mae *Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf* yn cynnwys datganiad o’r egwyddorion sy’n sail i’r dull gweithredu a ddefnyddir i gyflawni’r strategaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn effeithiol. Mae’r egwyddorion a nodir yn cynnwys y datganiad a ganlyn:

> *Bod gan bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid yr un mynediad i’w hawliau ag unrhyw berson ifanc arall.*

4.6 Byddai cynnig i ryddfreinio troseddwyr ifanc yn cynnwys nifer o’r un ystyriaethau ag sy’n berthnasol i ryddfreinio carcharorion sy’n oedolion a byddai’r un egwyddorion yn cael eu rhoi ar waith, sef y byddai troseddwyr ifanc o Gymru yn cael eu rhyddfreinio pa un a ydynt wedi’u lleoli yng Nghymru neu yn Lloegr, na fyddai troseddwyr ifanc o Loegr sydd wedi’u lleoli yng Nghymru yn cael eu rhyddfreinio, y byddai troseddwyr ifanc sy’n gymwys i bleidleisio yn gallu gwneud hynny drwy’r post neu drwy ddirprwy ac y byddai’r rhaglenni addysg y mae Llywodraeth Cymru eisoes yn eu cefnogi ar gyfer troseddwyr ifanc yn cynnwys modiwlau ar ddinasyddiaeth a rhyddfreinio.

*<u>Mater 5</u> - ymagweddau gwledydd eraill o ran hawl carcharorion i bleidleisio.*

5.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal gwaith ymchwil ar yr ymagweddau tuag at roi caniatâd i garcharorion bleidleisio a fabwysiadwyd mewn awdurdodaethau eraill a chyfeirir at y rheini yn y paragraffau uchod.

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Jeremy Miles AC/AM**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit**
**Counsel General and Brexit Minister**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA - L/CG/0242/19

Rt Hon David Gauke MP
Secretary of State for Justice
102 Petty France
London
SW1H 9AJ

privateoffice.gauke@justice.gov.uk

21 March 2019

Dear David,

The then First Minister, Carwyn Jones AM, wrote to you on 10 October 2018 in response to your letter of 7 September about prisoner voting rights and the package of measures agreed between the UK Government and the Committee of Ministers of the Council of Europe to close the *Hirst* group of cases. The First Minister mentioned that we were considering the issues around prisoner voting in relation to the franchise for Welsh local government and Assembly elections ("devolved Welsh elections") following their devolution.

The Assembly's Equality, Local Government and Communities Committee is undertaking an inquiry into prisoner voting rights for devolved Welsh elections; it is expected to report after Easter. The Welsh Government will take decisions about its proposals for prisoner and young offender voting in light of the Committee's findings. We are content that until such time as we may legislate for prisoner voting the changes which form part of the *Hirst* package of measures should apply for devolved Welsh elections in the meantime.

I shall write to you again with details of any proposals in due course.

I am copying this letter to the First Minister, the Minister for Housing and Local Government, the Llywydd as Chair of the Assembly Commission, the Chair of the Assembly's Equality, Local Government and Communities Committee, and the Secretary of State for Wales.

Yours sincerely,

**Jeremy Miles AM**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru / PSCGBM@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

**27 Mawrth 2019 – clawr y papurau i'w nodi**

| **Rhif y papur** | **Mater** | **Oddi wrth** | **Gweithredu** |
|---|---|---|---|
| ELGC(5)-11-19 Papur 4 | Llywodraethiant yn y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd | Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol | Cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru |
| ELGC(5)-11-19 Papur 5 | Ymchwiliad i hawliau pleidleisio i garcharorion | Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit | Llythyr i'r Gwir Anrhydeddus David Gauke AS, mewn perthynas â hawliau pleidleisio i garcharorion a'r pecyn o fesurau a gytunwyd gan Lywodraeth y DU a Phwyllgor y Gweinidogion |

Cadeiryddion y Pwyllgorau

15 Mawrth 2019

Annwyl Gadeiryddion

**Cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru**

Ym mis Chwefror 2018, gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad ***Llywodraethiant yn y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd***. Ei bwrpas oedd archwilio perthnasoedd rhynglywodraethol presennol i benderfynu a ydynt yn addas i'r diben, ac i asesu a oes angen iddynt newid.

Argymhelliad olaf ein hadroddiad oedd y dylai Llywodraeth Cymru lunio cytundeb gyda'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i gefnogi ei waith craffu ar weithgarwch Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.

Daeth y Pwyllgor i gytundeb â Llywodraeth Cymru ac ym mis Ionawr eleni, gosododd **adroddiad** gerbron y Cynulliad, a oedd yn ymgorffori'r cytundeb.

Yn dilyn y ddadl a gynhaliwyd ar yr adroddiad a'r cytundeb yr wythnos diwethaf, roeddwn yn meddwl y byddai'n briodol ysgrifennu at bob Cadeirydd, gan dynnu sylw at y cytundeb, fel y gall pwyllgorau asesu sut y byddent yn dymuno ei ddefnyddio wrth graffu ar Lywodraeth Cymru.

Mae'r cytundeb ar gael ar ein gwefan a byddaf yn sicrhau ei fod ar gael i glercod pwyllgorau.

Yn gywir



**Mick Antoniw**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

# Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon